| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **12 Medi 2024** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog** | **Y Cynghorydd Julie Matthews (Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a'r Dirprwy Arweinydd) / Markeus Woodworth (Prif Swyddog Digidol Dros Dro)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Helen Vaughan-Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol- Perfformiad, Digidol ac Asedau)** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Markeus Woodworth (Prif Swyddog Digidol Dros Dro)** |
| **Teitl** | **Adroddiad Diweddaru ar "Adolygiad Strategaeth Ddigidol" Archwilio Cymru** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag adroddiad Archwilio Cymru, "Adolygiad Strategaeth Ddigidol" sy'n seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2023 ac a adroddwyd i ni ym mis Chwefror 2024. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru. Mae copi o adroddiad Archwilio Cymru ynghlwm yn Atodiad 1. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar gyflawni ein Strategaeth Ddigidol bresennol (Atodiad 2) wrth i ni gyrraedd blwyddyn olaf y strategaeth, fydd yn dod i ben ddiwedd 2025.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I ystyried y cynnydd a wnaed hyd yma i ymdrin â'r pedwar argymhelliad a wnaed gan Archwilio Cymru yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2024, cyflawniad ein Strategaeth Ddigidol bresennol ac mae'n ystyried cynlluniau'r Cyngor i ddatblygu Strategaeth Ddigidol newydd, fydd yn fyw o 2026 ymlaen.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn pedwar argymhelliad Archwilio Cymru ac yn nodi y bydd hyn yn helpu i siapio'r dull a ddefnyddir i ddatblygu Strategaeth Ddigidol newydd o 2026 ymlaen.

3.2. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed i ddarparu ein Strategaeth Ddigidol bresennol o 2019 – 2025.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Archwiliodd adolygiad Archwilio Cymru Strategaeth Ddigidol bresennol y Cyngor o 2019 – 2025 (Atodiad 2), ynghyd â chynnal cyfweliadau gyda sampl o Aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion. Edrychwyd hefyd i ba raddau y mae ymagwedd strategol y Cyngor at ddigidol wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

4.2. Darganfu'r adolygiad:

- Bod gan y Cyngor strategaeth glir y mae swyddogion ac Aelodau yn ei deall. Bod y strategaeth yn llywio datblygiad prosiectau digidol yn y meysydd gwasanaeth. Mae'r strategaeth hefyd yn cyd-fynd â chynlluniau strategol eraill y Cyngor.
- Ni chafodd y strategaeth ei llywio gan farn preswylwyr na ffynonellau data eraill a allai wella dealltwriaeth y Cyngor o faterion presennol ac i'r dyfodol a allai effeithio ar ei ddull strategol.
- Er bod y Cyngor yn gweithio gyda rhai partneriaid i gyflawni ei ddull strategol at ddigidol, nid yw wedi ystyried yr holl gyfleoedd posibl ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.
- Nid yw'r Cyngor wedi cyfrifo'r costau llawn nac wedi nodi'r cyllid sy'n ofynnol i ddarparu ei strategaeth ddigidol.
- Nid yw'r Cyngor yn asesu effaith na gwerth am arian prosiectau digidol neu'r strategaeth ddigidol gyfan yn gyson.

4.3. Roedd pedwar argymhelliad yn yr adroddiad archwilio: Mae copi o Ymateb gwreiddiol Rheolwyr y Cyngor yn Atodiad 3 a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 6 Mawrth 2024.

4.4. Mae argymhelliad 1 yn ymwneud â'r sail tystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddyfeisio ein Strategaeth Ddigidol bresennol. Gweithredir ar yr argymhellion hyn wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer y Cyngor o 2026 ymlaen. Pwyslais y strategaeth fydd 'Digidol ar gyfer y Cyngor' a gyda hyn mewn golwg ein cwsmeriaid fydd meysydd gwasanaeth mewnol yn bennaf. I ddeall eu hanghenion a'r rhwystrau, bydd arolwg neu weithdai'n cael eu cynnal.

4.5. Mae argymhelliad 2 yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth. Mae'r Cyngor wedi nodi trefniadau partneriaeth perthnasol a chadarnhaol ac maent eisoes yn cymryd rhan ynddynt. Bydd y Cyngor yn parhau i fod yn agored i unrhyw gyfleoedd partneriaeth newydd ac yn ystyried hyn yn weithredol wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddigidol newydd pan fydd yr un bresennol yn dod i ben ar ddiwedd 2025.

4.6. Mae argymhelliad 3 yn ymwneud â chyfrifo'r costau ac adnoddau ar gyfer y strategaeth ac mae'n argymell y dylai'r Cyngor gyfrifo costau'r gweithgaredd sydd ei angen i'w darparu'n llawn. Bydd cyfrifiadau costau lefel uchel yn cael eu darparu yn y strategaeth nesaf, a byddant yn cael eu mireinio ymhellach fel rhan o ddatblygu achos busnes fesul prosiect yn ystod cam darparu cyfnod y strategaeth nesaf.

4.7. Mae argymhelliad 4 yn ymwneud â threfniadau i fonitro gwerth am arian ac effaith, yn cynnwys cael fframwaith i'w cefnogi yn ei brosiectau digidol. Mae camau'n ymwneud â diweddaru rhannau perthnasol o'n dull rheoli prosiect i gynnwys gofynion dogfennau mwy penodol am y pwyntiau hyn wedi cael eu cwblhau, ac mae mwy o fanylion yn Atodiad 3.

4.8. Mae cwmpas Strategaethau Digidol Llywodraeth Leol yn amrywio ar hyd a lled Cymru. Mae strategaeth bresennol y Cyngor yn ymwneud â threfniadau mewnol yn bennaf ac yn cynnwys saith prif faes. Rhoddir diweddariad ar ddarparu'r strategaeth yn erbyn y saith prif faes yn Atodiad 4. Fel yr amlinellir yn adran 4.4, bydd pwyslais y strategaeth nesaf yn debyg, sef 'Digidol ar gyfer y Cyngor'.

4.9. Sylwer bod unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar 'Ddigidol yn y Gymuned' bellach yn faes cyfrifoldeb y Tîm Gwytnwch Cymunedol dan y Gwasanaeth Tai a Chymunedau.

Rhoddwyd diweddariad ar waith y tîm hwnnw o ran cysylltedd â’r rhyngrwyd ar draws y Sir i’r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 18 Ebrill 2024.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae cael strategaeth sy’n gosod cyfeiriad strategol ar gyfer darpariaeth TGCh Cyngor Sir Ddinbych ac yn canolbwyntio ymhellach ar ddyheadau Digidol y Cyngor yn cyfrannu at Gyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad drwy ddarparu’r seilwaith technegol a chyfeiriad ar gyfer newid wedi’i alluogi’n ddigidol i barhau i ddarparu’n dda ar gyfer ein staff a’n preswylwyr. Mae’r strategaeth bresennol wedi cyfrannu’n gadarnhaol at y nod o fod yn Gyngor Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, gan ei fod wedi cefnogi’r symudiad tuag at weithio’n hyblyg a bod staff yn gallu gweithio a chysylltu o bell heb orfod cymudo a/neu wneud teithiau busnes.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cost yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o’r effaith ar les gan nad yw’r adroddiad hwn angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ystyriwyd adroddiad adolygu Archwilio Cymru gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 6 Mawrth 2024. Fel rhan o gynnal yr archwiliad, byddai amrywiol swyddogion y Cyngor wedi cyfrannu at yr archwiliad a chytuno ar yr adroddiad terfynol, argymhellion a chamau gweithredu.

8.2. Rhoddwyd diweddariad ar waith y tîm Gwytnwch Cymunedol o ran cysylltedd â’r rhyngrwyd ar draws y Sir i’r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 18 Ebrill 2024.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes angen datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes risgiau’n gysylltiedig â'r argymhellion ym mhwynt 3 uchod.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.